# Arweiniad i Arolygwyr

## Sut rydym yn arolygu mewn colegau arbenigol annibynnol

Darparwyr sydd wedi eu cofrestru ar restr Llywodraeth Cymru o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol o fis Medi 2024



Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**
Gweledigaeth Estyn 1
Diben y llawlyfr arweiniad ‘Sut rydym yn arolygu’ 1
Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu colegau arbenigol annibynnol 1
Cefndir polisi 2
**Rhan 1: Trefniadau ar gyfer ymgysylltu â darparwyr** **2**
Cyflwyniad 2
Cyd-destun 2
Trosolwg o ymgysylltu â cholegau arbenigol annibynnol 3
Egwyddorion ein gwaith 3
Ein meddylfryd 4
Disgwyliadau o ran arolygwyr 5
Disgwyliadau o ran darparwyr 5
Y Gymraeg 6
Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles 6
**Rhan 2: Gweithgarwch arolygu craidd** **7**
Dull arolygu 7
Yr Ystafell Arolygu Rithwir 7
Y tîm arolygu 7
Cysylltu â’r darparwr cyn arolygiad 8
Cynllunio’r arolygiad a pharatoi’r tîm 10
Yn ystod yr arolygiad 10
Ar ôl yr arolygiad 15
Sicrhau ansawdd arolygiadau 16
**Trefniadau ymweliadau monitro** **17**
Cyflwyniad 17
Gweithgarwch arolygu 17
Ar ôl yr arolygiad 17
**Rhan 3: Trefniadau dilynol** **18**
Ymweliad cyswllt y cynllun gweithredu ôl-arolygiad 18
Ymweliadau / gweithgarwch monitro 19
Tynnu o gategori gweithgarwch dilynol 20

# Cyflwyniad

## Gweledigaeth Estyn

Gweledigaeth Estyn yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau i bob dysgwr yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant hunanwella a dysgu trwy'r modd rydym yn cynghori, yn arolygu ac yn meithrin gallu.

## Diben y llawlyfr arolygu 'Sut rydym yn arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu ein hymagwedd at arolygu colegau arbenigol annibynnol. Y rhain yw'r darparwyr sydd wedi eu cofrestru fel sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol gyda Llywodraeth Cymru. Mae'n esbonio **sut** rydym yn arolygu. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a phob aelod arall o'r tîm arolygu. Gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer darparwyr i gefnogi eu dealltwriaeth o'r meddylfryd a'r methodolegau arolygu hefyd.

Dylid darllen yr arweiniad ochr yn ochr â'r arweiniad 'Beth rydym yn ei arolygu' mewn colegau arbenigol annibynnol, sy'n amlinellu'r fframwaith arolygu. Gall darparwyr ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau'n gweithio a'u helpu i gryfhau eu prosesau hunanwerthuso a gwella eu hunain.

Pan fydd yr arolygiad yn nodi arfer sy'n werth ei rhannu, bydd arolygwyr yn cynnwys ciplun ar yr arfer hon fel rhan o'r adroddiad arolygu. Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon yn gysylltiedig â dysgu ac addysgu, lles, cymorth ac arweiniad, ac arwain a gwella, byddwn yn trefnu gweithgarwch dilynol i gefnogi gwelliant. Mae arweiniad ar weithgarwch dilynol ar gael ar dudalen 17 y llawlyfr hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar ein gwefan, sef: www.estyn.llyw.cymru

## Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu colegau arbenigol annibynnol

Ar ôl ei chychwyn[1], mae adran 57 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd adrodd ar y canlynol:

- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir
- y safonau a gyflawnir gan y rheiny sy'n derbyn addysg a hyfforddiant
- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, gan gynnwys a yw'r adnoddau ariannol y trefnwyd eu bod ar gael i'r rheiny sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio i ddarparu gwerth am arian

Mae'r Ddeddf hefyd yn amlinellu hawl mynediad Estyn i adeiladau a gwybodaeth i'w alluogi i gyflawni swyddogaethau o'r fath. Mae hefyd yn datgan ei bod yn drosedd

[1] Hyd nes bydd y darpariaethau ansawdd yn y Ddeddf hon yn cychwyn, y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu fydd adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

rhwystro PAEF yn fwriadol (ac arolygwyr a ddefnyddir gan PAEF) wrth gyflawni swyddogaethau yn gysylltiedig ag arolygu.

**Cefndir polisi**

Er nad yw'n cael ei lywodraethu'n uniongyrchol gan y polisïau a'r confensiynau canlynol, mae'r llawlyfr arweiniad yn ystyried y canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004 yn sylfaen ar gyfer llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CRC.aspx
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 https://llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru

Blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu – yn cynnwys:

- Gwarant i Bobl Ifanc: https://www.llyw.cymru/y-warant-pobl-ifanc
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol:https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu LHDTC+: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru
- Cynllun Gweithredu Cymraeg 2050: https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-cynllun-gweithredu-strategaeth-y-gymraeg-2024-i-2025-html.

# Rhan 1: Trefniadau ar gyfer ymgysylltu â darparwyr

**Cyflwyniad**

Mae'r adran hon yn berthnasol ar draws ehangder ymgysylltiad Estyn â darparwyr. Rydym yn disgwyl i'r holl arolygwyr, gan gynnwys y rhai sydd dan gontract i Estyn a'r rhai sy'n gweithio fel arolygwyr cymheiriaid, lynu at yr egwyddorion hyn.

**Cyd-destun**

Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud â'r arolygiad craidd o bob coleg arbenigol annibynnol yn ystod y cylch arolygu[2]. Yn ychwanegol, mae Estyn hefyd yn arolygu agweddau ar y ddarpariaeth hon yn rheolaidd trwy ymweliadau monitro i roi cyngor i Lywodraeth Cymru i gefnogi cynnal ei rhestr o ddarparwyr. Mae'r arweiniad hwn yn esbonio'r trefniadau ar gyfer yr ymweliadau monitro hyn, hefyd.

**Adroddiadau thematig**

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Estyn lunio adroddiadau

[2] O 2024 ymlaen, bydd y cylch seibiant arolygu yn dychwelyd i chwe blynedd; fel yr amlinellir yn y Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2024, wedi iddynt ddechrau.

cenedlaethol ar ystod o themâu. Bydd Estyn yn nodweddiadol yn ymweld â sampl o ddarparwyr neu'n cynnal arolwg o bob darparwr fel rhan o'r gwaith hwn. Mae'r ymweliadau'n arwain at adborth llafar ac adroddiadau cenedlaethol sy'n cynnwys crynodebau o arfer effeithiol darparwyr unigol ar ffurf cipluniau ac astudiaethau achos, lle bo'n berthnasol.

## Trosolwg o ymgysylltu â cholegau arbenigol annibynnol

### Cofrestriad cychwynnol coleg arbenigol annibynnol newydd

- Arolygiad cofrestru i gynghori Llywodraeth Cymru ar y ddarpariaeth arfaethedig gan y coleg
- Nid oes adroddiad cyhoeddedig ar gyfer yr ymweliad hwn

### Newidiadau i drefniadau

- Gallai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gwblhau ymweliad a rhoi cyngor pan fydd darparwr yn ceisio gwneud newidiadau i drefniadau yn gysylltiedig â'i gofrestriad
- Nid oes adroddiad cyhoeddedig ar gyfer yr ymweliad hwn

### Arolygiad Craidd

- Arolygiad llawn yn canolbwyntio ar dri maes arolygu
- Mae adroddiad cyhoeddedig ar gyfer yr ymweliad hwn
- Bydd y rhain fel arfer yn cael eu cynnal unwaith ym mhob cylch arolygu
- Mae darparwyr yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd ar gyfer yr ymweliadau hyn

### Ymweliad Monitro

- Ymweliad monitro i adolygu cryfderau'r coleg, ei feysydd i'w datblygu a chynnydd yn erbyn argymhellion a adawyd yn yr arolygiad neu'r ymweliad diwethaf
- Mae adroddiad cyhoeddedig ar gyfer yr ymweliad hwn
- Mae darparwyr fel arfer yn cael 10 diwrnod gwaith o rybudd ar gyfer yr ymweliadau hyn
- Mae'r rhain fel arfer yn cael eu cynnal bob dwy flynedd
- Gallai'r ymweliadau hyn gael eu cynnal yn amlach pan na fydd rhan o broses ddilynol os yw darparwr yn achosi pryder neu nid yw ansawdd yr addysg yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn yr addysg neu'n dilyn y cwrs

## Egwyddorion ein gwaith

Rydym yn disgwyl i'n harolygwyr weithio yn unol â nifer o egwyddorion allweddol. Maent:

- yn defnyddio ymagwedd yn canolbwyntio ar y dysgwr at unrhyw weithgarwch ac ymgysylltu
- bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu
- yn canolbwyntio ar y darparwr penodol ym mhob gweithgaredd, ac yn addasu ein hymagweddau yn unol â hynny

- yn defnyddio ystod o fethodolegau ac ymagweddau teilwredig i werthuso ehangder gwaith y darparwr yn drylwyr ac yn deg
- yn mabwysiadu ymagwedd adeiladol sy'n gwneud y rhyngweithio â'r darparwr yn brofiad dysgu proffesiynol i'w staff

Yn ystod arolygiadau craidd, rydym yn disgwyl i arolygwyr ystyried popeth yn y dogfennau arweiniad arolygu 'beth' a 'sut' rydym yn arolygu, ond adrodd ar y cryfderau allweddol a'r gwendidau yn unig.

Yn ychwanegol, bydd ein harolygwyr:

- yn sicrhau bod ein gweithgarwch a'n hymgysylltu yn ymatebol i anghenion pob un o'r dysgwyr
- yn sicrhau bod ein gwerthusiadau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cadw at isafswm unrhyw ofynion ar gyfer dogfennau a pharatoadau gan y darparwr
- yn cael safbwynt dysgwyr a rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg i'n holl weithgarwch

Mewn arolygiadau craidd yn arbennig, bydd ein harolygwyr:

- yn cynnwys y darparwr yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys cyfle i'r darparwr ddewis enwebai
- yn rhoi ystyriaeth addas i'r blaenoriaethau gwella a ddewiswyd gan y darparwr, yn ogystal â meysydd allweddol eraill a nodwyd gan y tîm arolygu
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu

## Ein meddylfryd

Dyma ymagwedd Estyn at weithgarwch arolygu ac ymgysylltu:

**Teg a diduedd** – mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio i fod yn annibynnol, yn wrthrychol ac yn gytbwys. Rydym yn gadarn a chyson yn ein gwaith. Rydym yn pwyso a mesur y dystiolaeth a'i harwyddocâd i roi barn onest, gredadwy a chywir am gryfderau'r darparwr a'i feysydd i'w gwella.

**Cefnogol** – rydym yn gweithio i arwain darparwyr i weithredu gwelliannau sydd o fudd i ddysgwyr. Rydym yn annog arloesi ac yn cydnabod bwriadau da. Rydym yn gyfeillgar ond mae ein hymagwedd bob amser yn broffesiynol. Rydym yn cefnogi diwygio addysgol. Rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu perthnasoedd ystyrlon â darparwyr a sefydliadau lleol a rhanbarthol.

**Myfyriol** – mae gennym feddwl agored. Rydym yn gwrando ar ystod eang o randdeiliaid ac yn myfyrio ar eu hymatebion. Rydym yn ystyriol, yn bwyllog ac yn ofalus. Rydym yn cynllunio cyfleoedd i feddwl yn ofalus am y canfyddiadau arolygu a'u trafod gyda phobl eraill yn y tîm.

**Tryloyw** – rydym yn wybodus ac yn cyfathrebu'n glir, yn uniongyrchol ac yn gryno. Rydym yn defnyddio methodolegau arolygu effeithlon ac effeithiol i ymateb i sefyllfa unigryw'r darparwr. Rydym yn cynllunio gweithgarwch arolygu ac yn adrodd ar

gryfderau a meysydd i'w gwella mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol pob darparwr unigol. O ganlyniad, mae ein gweithredoedd yn hyrwyddo ymddiriedaeth a pharch.

## Disgwyliadau o ran arolygwyr

Mae ein disgwyliadau o ran arolygwyr yn esbonio sut rydym yn ymgorffori ein meddylfryd trwy ein gweithredoedd. Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni'r safonau disgwyliedig o ymddygiad.

Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwrtais ac yn broffesiynol
- yn sefydlu ac yn cynnal ffiniau proffesiynol priodol wrth siarad â phobl ifanc ac oedolion
- yn gwneud eu gwaith ag uniondeb a sensitifrwydd priodol
- yn cymryd yr holl gamau rhesymol i atal gorbryder gormodol a lleihau straen yn ystod gweithgarwch arolygu
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol gan ddefnyddio tystiolaeth glir a thrylwyr
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd heb ofn na ffafriaeth
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith
- yn ymateb yn briodol i geisiadau rhesymol

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu heffaith, ac nid ar sail unrhyw ffafriaethau am ddulliau penodol. Yr hyn sy'n allweddol i'r gwerthusiadau yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas at y diben o ran cynorthwyo'r holl ddysgwyr i gyflawni safonau uchel a lefelau lles cryf.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y maent yn derbyn hysbysiad eu bod yn rhan o dîm arolygu'r darparwr.

## Disgwyliadau o ran darparwyr

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol y naill at y llall. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Disgwyliadau Estyn o ran Arolygwyr, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr, yn cynnwys aelodau o'r corff llywodraethol:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol, gan barchu arolygwyr a staff cymorth arolygu
- gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- darparu tystiolaeth – neu gyfle i gael tystiolaeth – sy'n galluogi arolygwyr i gynnal yr arolygiad mewn ffordd agored, onest a gwrthrychol
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb i reolwr neu uwch arweinydd fod yn bresennol
- gweithio gydag arolygwyr i gymryd yr holl gamau rhesymol i leihau tarfu, straen a biwrocratiaeth

- cynnal deialog bwrpasol gyda'r arolygydd cofnodol ac arolygwyr eraill
- tynnu sylw arolygwyr at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas, trwy'r enwebai
- rhoi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch, a lles arolygwyr tra byddant ar y safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau arolygu hyd nes cyhoeddi'r adroddiad yn derfynol
- sicrhau bod timau arolygu yn cael mynediad i ardal breifat i drafod tystiolaeth arolygu a chynnal trafodaethau cyfrinachol
- peidio â thynnu lluniau na gwneud fideos yn ystod y broses arolygu, gan gynnwys gwerthusiadau drafft a ddatblygwyd yn ystod yr arolygiad

Dylid tynnu sylw'r tîm at unrhyw gamerâu cylch cyfyng ac offer recordio yn ystod y cyfarfod tîm cychwynnol.

Adeg yr hysbysiad ynghylch yr arolygiad, dylai darparwyr adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb y darparwr yw amlygu unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau unrhyw ymgysylltu, er enghraifft cyn eu harolygiad neu'u hymweliad ar y safle.

## Y Gymraeg

Byddwn yn cynnal unrhyw ymgysylltu, gan gynnwys arolygiadau, yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar ein gwefan.

## Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad Estyn ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd, yn eu barn nhw, yn achosi perygl gwirioneddol i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddysgwyr, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn y darparwr.

Os daw arolygydd yn ymwybodol o honiad / amheuaeth ynghylch diogelu sy'n ymwneud â pherson ifanc neu oedolyn bregus, dylai ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu', sydd ar gael ar ein gwefan.

Ym mhob achos, dylai arolygwyr gofnodi manylion am y pryder. Dylent roi gwybod i'r arolygydd cofnodol (AC). Wedyn, dylai'r AC gysylltu ag un o swyddogion arweiniol diogelu Estyn. Bydd y swyddog arweiniol yn rhoi gwybod i'r AC am y camau nesaf i'w cymryd, gan gynnwys beth i'w gofnodi yn sail y dystiolaeth ar gyfer y maes arolygu priodol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw risgiau'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles dysgwyr. Bydd y swyddog hefyd yn rhoi gwybod i'r AC p'un a ddylid rhannu'r pryder â'r coleg ai peidio.

Lle mae'r risgiau hyn yn achosi pryder difrifol yn ystod gweithgarwch neu ymweliadau arolygu craidd, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad. Byddwn yn anfon llythyr lles at y darparwr yn gofyn iddo amlinellu sut bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg, a byddem yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hyn hefyd.

Os bydd arolygydd yn nodi pryder ynghylch diogelwch ar y safle, dylai roi gwybod i'r AC. Os yw'r AC yn ystyried y gellir mynd i'r afael â'r pryder yn gyflym, dylai roi gwybod i'r coleg y bydd disgwyl iddo ddarparu tystiolaeth fod y pryder wedi cael ei ddatrys o fewn wythnos.

Os yw'r pryder(on) yn fwy difrifol ac na ellir mynd i'r afael ag ef yn gyflym, dylai'r AC roi gwybod i'r CydAr a fydd yn cyflwyno llythyr iechyd a diogelwch i'r coleg. Yr AC fydd â'r cyfrifoldeb i sicrhau yr eir i'r afael â'r mater(ion). Dylid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hyn, hefyd. Os nad eir i'r afael â mater llai arwyddocaol yn foddhaol o fewn wythnos, yna bydd y broses hon yn berthnasol hefyd.

## Rhan 2: Gweithgarwch arolygu craidd

### Dull arolygu

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw gwerthusiad y coleg o'i berfformiad ei hun a'i flaenoriaethau, wedi'i ategu gan dystiolaeth berthnasol. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y gwaith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi asesiad y coleg ei hun o'i waith.

Y cynnydd a wna dysgwyr o'u mannau cychwyn a'r safonau a gyflawnir ganddynt yw mesurau allweddol ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant y maent wedi'u cael ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y coleg. Bydd arolygiadau'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, eu hagweddau at ddysgu a'r effaith a gaiff y ddarpariaeth ar gefnogi eu cynnydd a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

### Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Byddwn yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) ar gyfer rheoli sawl agwedd ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i ddarparwyr lwytho gwybodaeth i fyny cyn yr arolygiad a lawrlwytho arweiniad oddi wrthym am y broses arolygu. Hefyd, yn yr YAR, gall darparwyr fynd at yr holiaduron ôl-arolygiad (HOA) ar ôl arolygiad craidd.

Rydym yn sicrhau diogeledd gwybodaeth sy'n cael ei lanlwytho trwy gynnal profion hacio ar yr YAR. Mae'r profion hyn yn gwerthuso diogeledd y system. Rydym yn nodi ac yn gweithredu unrhyw gamau i atal mynediad heb awdurdod. Mae gan holl ddefnyddwyr system YAR Estyn enw defnyddiwr a chyfrinair, sy'n cael eu cofnodi a'u cynnal yn ddiogel o fewn cyfeirlyfr gweithredol. Mae'r system hefyd yn cynnwys nodweddion i sicrhau bod cyfrineiriau'n cael eu gwarchod, yn cynnwys darganfod bygythiadau a mynediad amodol.

### Y tîm arolygu

Mae rolau gwahanol yn y tîm arolygu.

| Aelod o'r tîm | Esboniad | Rôl |
|---|---|---|
| Arolygydd Cofnodol | Bydd yr AC ar gyfer arolygiad yn un o'r canlynol: | Yr AC sy'n arwain ac yn rheoli'r tîm arolygu. Bydd yn |

| | | |
|---|---|---|
| (AC), y gellir cyfeirio ato/ati hefyd fel yr arolygydd arweiniol | AEF (Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) – caiff AEF eu penodi gan y goron. Maent yn weision sifil sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan Estyn.<br>AY (Arolygydd Ychwanegol) – fel arfer, bydd Arolygwyr Ychwanegol yn ymuno ag Estyn dros dro, er enghraifft ar secondiad o ddarparwyr. | cysylltu â'r coleg a'r tîm cyn yr arolygiad, ac yn sicrhau ansawdd gwaith y tîm. Yr AC yw'r pwynt cyswllt cyntaf i bawb yn ystod y rhan o'r broses arolygu sy'n digwydd ar y safle. |
| Arolygwyr Tîm (AT) | Pennir nifer yr arolygwyr tîm gan faint y darparwr. Gall arolygwyr tîm fod yn AEF neu'n arolygwyr ychwanegol dan gontract sydd wedi'u hyfforddi gan Estyn. | Gallai arolygwyr tîm fod yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiad y tîm o agweddau gwahanol ar yr arolygiad. Mae'r AC yn cyfarwyddo ac yn rheoli gwaith yr arolygwyr tîm. |
| Arolygydd Cymheiriaid | Mae arolygydd cymheiriaid yn arweinydd neu'n rheolwr presennol mewn darparwr arall sydd wedi cwblhau hyfforddiant ac asesiad arolygydd cymheiriaid Estyn. Mae gan bob tîm arolygu arolygydd cymheiriaid yn aelod o'r tîm. | Mae arolygwyr cymheiriaid hefyd yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiadau'r tîm. Maent yn rhan annatod o'r tîm arolygu. Mae'r AC yn cyfarwyddo ac yn rheoli gwaith yr arolygydd cymheiriaid. |
| Enwebai (o'r darparwr sy'n cael ei arolygu) | Byddwn yn gwahodd darparwyr i ddewis uwch aelod staff, o'r enw'r enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Yn ymarferol, mae bron pob un o'r darparwyr yn derbyn y gwahoddiad, ond nid yw'n ofyniad. Dylai'r enwebai fod â swydd ar lefel ddigon uchel i fod yn gyswllt rhwng y darparwr a'r tîm arolygu, ond nid oes angen iddo fod yn arweinydd y darparwr. | Gall darparwyr fynd at yr arweiniad i enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad o ddolenni yn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), sy'n cael ei llenwi gan y Cydlynydd Arolygu (CydAr) ac sydd ar gael drwy'r YAR. |

Pryd bynnag y bo modd, gallem hefyd wahodd arolygydd / adolygydd cymheiriaid rhyngwladol o un o'r arolygiaethau addysg a hyfforddiant yn y Deyrnas Unedig, sef ETI (Gogledd Iwerddon), Education Scotland, Ofsted, Quality and Qualifications Ireland (QQI) Eire neu Ewrop. Bydd yn gallu dod â safbwynt meincnodi rhyngwladol i'r arolygiad, hwyluso rhannu arfer hynod effeithiol a galluogi rhwydweithio gwell gan ddarparwyr yng Nghymru gyda'u cymheiriaid rhyngwladol.

## Cysylltu â'r darparwr cyn yr arolygiad

Bydd y darparwr yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd am arolygiad craidd a 10 diwrnod o rybudd am ymweliad monitro.

Ar ôl hyn, bydd y Cydlynydd Arolygu yn ffonio'r darparwr i drefnu cyfarfod Teams i drafod y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y Cydlynydd Arolygu:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad, gan gynnwys ffurflen hunanwerthuso diogelu wedi'i llenwi gan y darparwr, ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer ei derbyn ar ffurf electronig drwy'r Ystafell Arolygu Rithwir
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt, ac yn gofyn am sesiwn friffio gyffredinol i'r tîm ar ddechrau'r arolygiad yn ymwneud ag iechyd a diogelwch
- yn canfod a yw'r darparwr yn dymuno cael enwebai ac, os ydyw, yn cytuno ar rôl yr enwebai ac yn esbonio'r broses ar gyfer cwblhau arweiniad yr enwebai
- yn trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad, gyda'r enwebai, i roi brîff ar iechyd a diogelwch i'r tîm
- yn trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad i'r darparwr amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella a'i gyfnod datblygu presennol
- yn darparu dolenni ac arweiniad ar gyfer llenwi holiaduron cyn-arolygiad ar-lein ar gyfer dysgwyr, staff, a llywodraethwyr (lle bo'n briodol)
- yn cytuno ar drefniadau ar gyfer cael cyfarfod gyda llywodraethwyr (lle bo'n briodol)
- yn trefnu bod tystiolaeth ategol ar gael, yn cynnwys samplau o waith dysgwyr
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gŵynion a allai godi yn ystod yr arolygiad
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, er enghraifft ystafell ar gyfer yr arolygwyr, parcio a chysylltiad â'r rhyngrwyd
- yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ynghylch canfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiadur ôl-arolygiad (HOA)
- yn rhoi gwybod i'r darparwr trwy'r ffurflen cyswllt cychwynnol am y trefniadau arolygu allweddol

Bydd y cydlynydd arolygu yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan y darparwr trwy'r ystafell arolygu rithwir cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr hysbysiad ffurfiol am yr arolygiad:

- gwybodaeth gefndir allweddol am y darparwr
- cynlluniau datblygu ansawdd ac adroddiadau hunanwerthuso diweddaraf y darparwr
- nifer y dysgwyr, yn cynnwys y dysgwyr rhan-amser ac amser llawn, a'u lleoliad
- manylion am amserlenni'r darparwr ar gyfer cyfnod yr arolygiad
- trefnu dyddiad (fel y cytunwyd gyda'r AC) ar gyfer cyfarfod cynllunio cychwynnol

Os bydd yr arolygiad yn cael ei gynnal yn gynnar yn y flwyddyn academaidd, efallai yr hoffai darparwyr rannu samplau o waith dysgwyr o'r flwyddyn flaenorol ag arolygwyr, os oes rhai ar gael. Os na all darparwyr rannu gwaith blaenorol dysgwyr, bydd arolygwyr yn ystyried y wybodaeth hon wrth drafod gwaith a chynnydd gyda staff a dysgwyr.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i ddarparwyr am yr arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i gael mynediad at holiaduron ar-lein ar gyfer dysgwyr, rhieni / gofalwyr a staff. Bydd canlyniadau'r holiaduron cyn-arolygiad yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad ac yn cynorthwyo arolygwyr i ffurfio'u gwerthusiadau o waith y darparwr.

Bydd y tîm hefyd yn ystyried yr arolwg diweddaraf o amgyffrediadau dysgwyr a gynhaliwyd gan y darparwr.

Yn ystod yr arolygiad, gallai arolygwyr gyfweld â charfan o ddysgwyr, staff addysgu, asesu a staff cymorth dysgu fel rhan o'u proses i gasglu tystiolaeth.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Gan ystyried y blaenoriaethau mae'r darparwr wedi'u nodi ar gyfer eu gwella a'i adroddiadau hunanasesu, ac unrhyw wybodaeth sydd eisoes ym meddiant Estyn, fel canfyddiadau ymweliadau monitro ac adolygiadau thematig, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnwys arsylwadau o addysgu a dysgu, yn cynnwys arsylwi cyfnodau estynedig o sesiynau addysgu ac arsylwadau byrrach fel rhan o deithiau dysgu. Gallai arsylwadau o addysgu a dysgu a chraffu ar waith dysgwyr gael eu cynnal wyneb yn wyneb neu ar-lein, fel y bo'n briodol.

Rydym yn gofyn i ddarparwyr roi cynllun llawn o'r holl weithgareddau yn ystod wythnos yr arolygiad yn yr YAR. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio gweithgareddau'r tîm ar sail y wybodaeth sy'n dod i law.

## Yn ystod yr arolygiad

### Y cyfarfod tîm cychwynnol

Yng nghyfarfod cychwynnol y tîm arolygu, dylai aelod o staff y coleg roi brîff iechyd a diogelwch. Dylai'r coleg roi datganiad sefyllfa bras ar ei flaenoriaethau strategol a'i gyfnod datblygu presennol. Ar ôl hynny, dylai'r tîm drafod gydag uwch arweinwyr y blaenoriaethau gwella a nodwyd gan y coleg a'r cynnydd y mae'n ei wneud yn ei waith gwella. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cadarnhau'r trefniadau hyn gyda'r coleg yn ystod yr alwad ffôn cyn yr arolygiad.

Bydd arolygwyr yn samplu, yn profi ac yn dilysu blaenoriaethau'r coleg ei hun a'i werthusiadau o'i gryfderau a'i feysydd i'w gwella, ac unrhyw gryfderau a meysydd eraill i'w gwella y mae'r arolygydd cofnodol yn eu nodi. Bydd y trafodaethau'n ystyried y dystiolaeth y mae angen i arolygwyr ei hadolygu, hefyd. Bydd hyn yn cynnwys teithiau dysgu, arsylwi sesiynau, samplu gwaith ysgrifenedig dysgwyr a chyfweliadau â dysgwyr, staff a rhanddeiliaid eraill.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn cadarnhau'r trefniadau hyn gyda'r enwebai yn ystod y cyfarfod cynllunio cyn yr arolygiad.

### Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel y gallant fynd i'r afael â'r gofynion adrodd yn y tri maes arolygu. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r gweithgarwch arolygu yn hyblyg, er mwyn ymateb i amgylchiadau unigol a phwrpasol y darparwr. Mae hyn yn golygu na fydd y gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio mewn un darparwr efallai'n adlewyrchu'r rhai sy'n cael eu cynllunio mewn darparwr arall. Yn ychwanegol, mae arolygwyr yn adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y bydd y tîm bob amser yn ystyried popeth yn y meysydd arolygu, ond efallai na fydd yr adroddiad terfynol yn

cynnwys pob agwedd ar y fframwaith.

Dyma'r prif fathau o dystiolaeth:

- tystiolaeth ddogfennol neu electronig, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd dysgwyr
- arsylwi'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu a gweithgareddau eraill, yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- samplau o waith dysgwyr
- ymatebion i'r arolwg gan ddysgwyr, staff, rhieni a llywodraethwyr (lle bo'n briodol)
- trafodaethau â dysgwyr, arweinwyr, rheolwyr, llywodraethwyr (neu fwrdd y cyfarwyddwyr, lle bo'n briodol) a rhanddeiliaid allweddol eraill

Bydd arsylwadau uniongyrchol o fedrau ymarferol a gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn cael eu defnyddio gan y tîm, lle bynnag y bo modd, i gasglu tystiolaeth i gefnogi eu gwerthusiadau. Gall arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith dysgwyr, os oes angen, i fodloni eu gwerthusiadau o agwedd benodol.

Bydd arolygwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu gwerthusiad o gynnydd dysgwyr ac ansawdd darpariaeth y darparwr. Gall hyn gynnwys arsylwi sesiynau, yn cynnwys samplu gwersi ar-lein, teithiau dysgu, pan fydd arolygwyr yn symud yn gymharol gyflym drwy nifer o sesiynau addysgu neu hyfforddi yn bwrw golwg ar agwedd benodol ar y ddarpariaeth, trafodaethau ag athrawon unigol am gynnydd dysgwyr yn eu sesiynau hyfforddi, a'r modd y maent yn cynllunio gwaith i fodloni eu hanghenion.

Mae llais y dysgwr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer arolygwyr. Bydd arolygwyr yn siarad â dysgwyr mewn sesiynau dysgu, mewn grwpiau ffocws neu sefyllfaoedd anffurfiol. Bydd sgyrsiau â dysgwyr yn gyfle i archwilio amgyffrediadau dysgwyr o'u cynnydd a'u profiadau dysgu. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i bwyso a mesur pa mor dda y mae'r coleg yn cefnogi dysgwyr ac yn cyfrannu at eu lles, yn eu barn nhw.

Dylai colegau drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a'r cynnydd a gyflawnir gan ddysgwyr, yn cynnwys canlyniadau unrhyw asesiadau cychwynnol a diagnostig o fedrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol, ac asesiadau eraill o anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd dysgwyr er mwyn llunio safbwynt am y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni o'i gymharu â mannau cychwyn a'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y coleg a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

Pan nad y pennaeth yw'r enwebai, mae'n bwysig fod yr arolygydd cofnodol yn cynnal cyfarfod byr gyda'r pennaeth a'r enwebai i egluro materion arolygu a chanfyddiadau bras, datblygol y tîm arolygu.

### Cofnodi tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni yn electronig fel rhan o system ddigidol Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau'r arolygiad.

## Deialog broffesiynol

Trwy gydol yr arolygiad, bydd arolygwyr yn cynnal deialog broffesiynol ag ymarferwyr. Gallai'r ddeialog hon gynnwys cyfarfod ag athrawon neu hyfforddwyr unigol, yn aml yn eu hystafelloedd dosbarth, i drafod sut maent yn cynllunio ac yn asesu gwaith dysgwyr. Efallai y bydd arolygwyr am gyfarfod â grwpiau o staff cymorth, er enghraifft i ddeall trefniadau'r darparwr i gefnogi dysgwyr ag ADY. Gallai arolygwyr benderfynu cyfarfod ag arweinwyr, naill ai'n unigol neu fel grŵp, i ddeall effaith arweinyddiaeth y darparwr ar ysgogi gwelliannau i ddeilliannau disgyblion.

Mae deialog broffesiynol yn galluogi arolygwyr i gael tystiolaeth uniongyrchol gan ymarferwyr, y gellir ei thriongli â ffynonellau eraill o dystiolaeth. Bydd y ddeialog yn darparu canfyddiadau dros dro, sy'n dod i'r amlwg, ar agweddau ar sail y dystiolaeth. Gellir diwygio'r canfyddiadau hyn ar ôl myfyrio arnynt, er enghraifft ar ôl craffu ar waith dysgwyr neu siarad â dysgwyr, neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm.

Fel arfer, ar ôl arsylwi sesiwn, bydd arolygwyr yn cynnal deialog broffesiynol fer â'r aelod staff am y dysgu a welwyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod yr arolygiad.

Dylai prif ffocws y drafodaeth bob amser fod ar y dysgwyr, y cynnydd a wneir ganddynt yn ystod y sesiwn, a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu mewn perthynas â'r gwaith penodol a welwyd.

Oherwydd natur teithiau dysgu, a lledaeniad y gweithgarwch ar draws nifer o weithgareddau mewn cyfnod cymharol fyr, ni fydd modd i arolygwyr gynnig deialog broffesiynol i athrawon na hyfforddwyr unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu.

## Cyfarfodydd tîm

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt cywir, dibynadwy, dilys a chorfforaethol am ddysgu ac ansawdd darpariaeth ac arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi dilysrwydd ym mhrosesau hunanwerthuso'r coleg a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- adolygu ymweliadau â dysgwyr
- nodi unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

Tuag at ddiwedd yr arolygiad, bydd y tîm yn cynnal cyfarfod i adolygu'r gwerthusiadau drafft. Diben y cyfarfod hwn yw safoni canfyddiadau a llunio barn ar y cyd am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar gyfer pob maes arolygu yn y bartneriaeth. Bydd yr enwebai'n cael cyfle llawn i gymryd rhan yn y cyfarfod hwn.

Bydd y tîm hefyd yn nodi unrhyw argymhellion i helpu canolbwyntio ar welliant y bartneriaeth, cipluniau arfer effeithiol neu ddiddorol i'w hamlygu yn yr adroddiad, ac a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ffurfiol gan Estyn.

## Yn achosi pryder

Yn ystod pob arolygiad, bydd y tîm arolygu'n ystyried p'un a yw'r darparwr yn achosi pryder a bod angen gweithgarwch dilynol arno. Gallai hyn fod yn gysylltiedig ag agwedd neu agweddau ar addysg a hyfforddiant sy'n annigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn datgan: 'mae ansawdd addysg drydyddol, neu ansawdd cwrs addysg drydyddol, yn annigonol os nad yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rheiny sy'n cael yr addysg neu sy'n ymgymryd â'r cwrs.'[3]

Dyma'r rhesymau posibl dros nodi bod darparwr yn achosi pryder:

- mae cyfran uchel o ddysgwyr yn tangyflawni dros gyfnod neu ddirywiad sylweddol mewn cyflawniad dros gyfnod
- os nad yw'r darparwr yn rhoi safon dderbyniol o addysg a hyfforddiant i'w ddysgwyr
- os nad yw'r darparwr yn perfformio cystal o gryn dipyn na'r hyn y gellid yn yr holl amgylchiadau ddisgwyl iddo berfformio yn rhesymol
- os nad yw'r bobl sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r darparwr yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol
- pryderon difrifol ynghylch diogelu
- nid yw'n mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol neu drwy weithgarwch mewnol neu allanol arall
- unrhyw bryder arall sy'n achosi risg sylweddol i les neu gyflawniad dysgwyr

Rhaid i'r tîm arolygu adrodd fel y gwêl, a gallu cadarnhau ei farnau ar sail tystiolaeth gadarn. Os yw'r dystiolaeth yn pwyntio at y casgliad fod y darparwr yn achosi pryder, rhaid i'r arolygwyr wneud y penderfyniad hwnnw.

Dylai ein harolygwyr gofio bob amser bod y prif bwyslais mewn arolygiadau ôl-16 ar y deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Wrth farnu'r graddau y mae gan uwch arweinwyr y gallu i ysgogi gwelliannau, bydd angen i arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r arweinwyr hyn yn gwybod ac yn deall y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu sefydliad. Dylai arolygwyr hefyd sefydlu a yw uwch arweinwyr yn dangos y gallu i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella trwy ymdeimlad o ddiben a chyfeiriad y maent yn ei ddarparu, a thrwy benderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phryderon. Dylai trafodaethau ag uwch arweinwyr ddarparu tystiolaeth o sut maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac a ydynt yn rhoi sylw i'r pethau cywir. Pan fo'n berthnasol, dylai arolygwyr ystyried hefyd pa mor wybodus yw llywodraethwyr neu aelodau'r bwrdd am feysydd i'w gwella a pha mor dda y maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau effeithiol a phriodol.

O dan yr holl amgylchiadau, mae'n hanfodol bod arolygwyr yn gwerthuso gwaith y darparwr yn y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo ar y pryd. Ni ddylent gael eu dylanwadu'n ormodol gan gynlluniau ar gyfer gwella a baratowyd yn ddiweddar nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith eto neu benodi staff yn ddiweddar, fel pennaeth, Prif Weithredwr neu uwch arweinydd newydd, neu fod y darparwr yn datgan y gall fynd i'r

[3] Adran 52 (3) Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

afael â meysydd pryder yn gyflym. Mae hyn oherwydd, yn yr achosion hyn, ni fydd modd gweld effaith y gwelliannau eto. Rhaid i arolygwyr farnu perfformiad a deilliannau'r darparwr ar hyn o bryd yn hytrach na bwriadau a chynlluniau damcaniaethol neu dda, a rhagolwg dyheadol.

Dylai trafodaethau'r tîm ystyried unrhyw ffactorau lliniarol i sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd y gwerthusiadau cyn penderfynu bod darparwr yn achosi pryder.

Os bernir bod y darparwr yn achosi pryder sylweddol, dylai'r arolygydd cofnodol gymryd y camau canlynol:

- rhoi gwybod i'r Cydlynydd Arolygu priodol
- rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol neu'r Cyfarwyddwr Strategol am y farn (a fydd yn rhoi gwybod i PAEF, yn ei dro)

Os bernir bod y darparwr yn achosi pryder, dylai'r arolygydd cofnodol ddweud wrth y pennaeth / Prif Weithredwr ar ddiwedd yr arolygiad bod y tîm wedi dod i'r casgliad hwn a llenwi'r adran berthnasol ar y ffurflen adrodd.

Ar ôl safoni a dilysu'r deilliannau arolygu cytûn o fewn Estyn, byddwn yn ysgrifennu llythyr cadarnhad at y darparwr yn esbonio y bydd arolygwyr yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y darparwr yn mynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad gan ddefnyddio'r trefniadau a nodir isod yn yr arweiniad hwn.

## Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan o'r arolygiad ar y safle, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i arweinwyr a llywodraethwyr y coleg. Dylai'r coleg wahodd cynrychiolwyr o'r corff llywodraethol (neu gorff goruchwylio arall) i'r cyfarfod hwn. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y prif werthusiadau ar gyfer pob un o'r tri maes arolygu a'r rhesymau am y rhain.

Mae'r cyfarfod adborth yn cynnig cyfle i arweinwyr a llywodraethwyr glywed a myfyrio ar ganfyddiadau'r tîm. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt, gan gynnwys yr argymhellion. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio wrth y coleg y gellir egluro materion, ac y gellir cywiro materion ffeithiol. Fodd bynnag, diben y cyfarfod yw bod y darparwr yn deall yn hytrach na thrafod canfyddiadau'r tîm arolygu.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm yn ystyried hefyd a oes unrhyw arfer effeithiol yn y coleg sy'n werth ei rhannu â cholegau eraill. Yn yr achos hwn, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynnwys ciplun ar yr arfer hon fel rhan o'r adroddiad arolygu.

Mae'r holl werthusiadau sy'n cael eu hadrodd yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEF. Maent yn gyfrinachol i staff a llywodraethwyr y coleg. Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol, nes i ni gyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan.

## Cwynion am y broses arolygu

Os bydd unrhyw faterion yn ymwneud â'r broses arolygu neu ymddygiad arolygwyr

unigol, yna dylai'r coleg, trwy'r enwebai, godi'r rhain yn uniongyrchol â'r arolygydd cofnodol, a hynny cyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r coleg aros tan ar ôl yr arolygiad; dylai godi unrhyw faterion tra bydd y tîm ar y safle. O bryd i'w gilydd, bydd materion yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth ac, fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol yn y coleg yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad yn ein gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion ar ein gwefan.

Mae rhai pethau nad ydym yn mynd i'r afael â nhw trwy ein gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, er enghraifft cwynion, neu heriau, am werthusiadau neu benderfyniadau dilynol a wneir ar ôl arolygiad neu adolygiad gan Estyn. Mae hyn oherwydd bod y darparwr yn cael cyfle cyn ac yn ystod arolygiad i ddarparu'r holl dystiolaeth sydd ei hangen i'r tîm arolygu lunio'i werthusiadau yn gywir ac yn deg.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg, ac yn ddefnyddiol i'r darparwr.

Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn, sydd ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau'n ddwyieithog lle mae colegau wedi gofyn i ni wneud hynny, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Estyn.

Rydym yn seilio strwythur yr adroddiad arolygu ar Fframwaith Arolygu Cyffredin a bydd yr adroddiad ar y ffurf ganlynol:

**Ynglŷn â'r coleg**

**Trosolwg o'r prif ganfyddiadau**

**Argymhellion**

**Beth sy'n digwydd nesaf**

**Prif werthusiadau**

Maes Arolygu 1 – Addysgu a dysgu
Maes Arolygu 2 – Lles, gofal, cymorth ac arweiniad
Maes Arolygu 3 – Arwain a gwella

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

Bydd y prif werthusiadau'n cynnwys testun naratif o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a chipluniau ar arfer ddiddorol neu effeithiol. Ar ddiwedd pob testun am faes arolygu, bydd pwyntiau bwled o agweddau i'w hystyried ar gyfer eu gwella ymhellach.

Byddwn yn llunio'r adroddiad o fewn graddfeydd amser statudol neu gytunedig y sector.

Ni fyddwn yn adrodd ar ddysgu nac agweddau at ddysgu lle mae 5 dysgwr neu lai yn cael eu harsylwi yn ystod arolygiad neu ymweliad monitro. Mae hyn oherwydd byddai nifer y dysgwyr sy'n bresennol adeg yr arolygiad yn rhy fach i adrodd arnynt heb nodi dysgwyr unigol.

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg, ac yn ddefnyddiol i'r darparwr.

Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn, sydd ar gael ar ein gwefan, sef [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru).

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau'n ddwyieithog lle mae darparwyr wedi gofyn i ni wneud hynny, yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg.

### Gwirio cywirdeb ffeithiol

Bydd Estyn yn rhoi drafft o'r adroddiad i'r coleg cyn ei gyhoeddi, er mwyn helpu gwirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Fel arfer, bydd gan y coleg bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw wallau.

Mae'r gwiriad yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw'n canolbwyntio ar y canfyddiadau. Ceir arweiniad pellach i ddarparwyr ar natur a chwmpas y gwiriad hwn ar wefan Estyn.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Rydym wedi ymrwymo i:

- ddethol, hyfforddi, briffio, cefnogi a lleoli arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr ychwanegol
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd â'r enwebai a'r pennaeth yn ystod arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r arweiniad arolygu
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- darparu adborth llafar clir ar brif ganfyddiadau'r tîm a'r manylion ar gyfer pob maes arolygu
- llunio adroddiadau cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Fel rhan o'n gweithdrefnau sicrhau ansawdd, rydym yn gwahodd colegau i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael i golegau yn yr YAR. Dylai colegau lenwi'r rhan gyntaf o'r HOA yn union ar ôl yr arolygiad ar y safle, a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Gall colegau lenwi ail ran yr HOA ar ôl i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi, eto drwy system yr YAR.

Rydym yn cymhwyso proses sicrhau ansawdd drylwyr i bob un o'n harolygiadau. Yr arolygydd cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd gwaith y tîm yn y lle cyntaf. Ar ôl diwedd y gweithgarwch ar y safle, bydd AEF profiadol nad yw wedi bod yn gysylltiedig â'r arolygiad hyd yma yn sicrhau ansawdd yr adroddiad a sail y dystiolaeth. Creffir ar sail y dystiolaeth lawn a'i pharu i destun yr adroddiad, i sicrhau bod y ddau yn cyd-fynd. Yn ychwanegol, mae'r broses sicrhau ansawdd yn ystyried priodoldeb lefel y

gweithgarwch dilynol, a'r argymhellion sy'n deillio o'r arolygiad. Fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd, gellir diwygio, dileu neu ychwanegu argymhellion.

Wedyn, cynhelir proses safoni arall. Bydd y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol priodol yn craffu ar sail y dystiolaeth a'r adroddiad. Pryd bynnag y bydd gweithgarwch dilynol statudol o ganlyniad i arolygiad, bydd y Cyfarwyddwr Strategol, yn ogystal â Chyfarwyddwr Cynorthwyol, yn safoni'r adroddiad ochr yn ochr â sail y dystiolaeth, ar ran PAEF. Ar adegau prin iawn, gallai'r broses safoni hon arwain at newid i lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn ychwanegol, rydym yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau trwy ymweliadau ar y safle. Mae ein trefniadau llawn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ar gael ar ein gwefan [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru).

## Trefniadau ymweliadau monitro

### Cyflwyniad

Mae'r adran hon wedi'i chyflwyno mewn ffordd sy'n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl ymweliad monitro.

Bydd y darparwr yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd am arolygiad craidd, a 10 diwrnod o rybudd am ymweliad monitro.

**Mae egwyddorion arolygu, y meddylfryd arolygu, y cod ymddygiad a'r disgwyliadau o ran darparwyr yn aros yr un fath ag y maent ar gyfer arolygiad craidd.**

### Gweithgarwch arolygu

Yn ystod ymweliad monitro, bydd y tîm yn canolbwyntio ar brif gryfderau'r coleg a'i feysydd i'w datblygu, a'r cynnydd tuag at unrhyw argymhellion a adawyd o'r arolygiad diwethaf.

**Mae ymagweddau eraill at weithgarwch ar yr ymweliadau hyn, fel defnyddio'r YAR a chasglu tystiolaeth fel yr uchod, mewn arolygiad craidd.**

### Ar ôl yr arolygiad

#### Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg, ac yn ddefnyddiol i'r darparwr.

Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn, sydd ar gael ar ein gwefan.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau'n ddwyieithog lle mae darparwyr wedi gofyn i ni wneud hynny, yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg.

Rydym yn seilio strwythur yr adroddiad arolygu ar ein Fframwaith Arolygu. Bydd yr adroddiad ar y ffurf ganlynol:

| |
|---|
| **Ynglŷn â'r Darparwr** |
| **Cryfderau** |
| **Meysydd i'w datblygu** |
| **Cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol** |
| **Argymhellion** |

Byddwn yn llunio'r adroddiad o fewn graddfeydd amser statudol neu gytunedig y sector.

Ni fyddwn yn adrodd ar ddysgu nac agweddau at ddysgu lle mae 5 dysgwr neu lai yn cael eu harsylwi yn ystod arolygiad neu ymweliad monitro. Mae hyn oherwydd byddai nifer y dysgwyr sy'n bresennol adeg yr arolygiad yn rhy fach i adrodd arnynt heb nodi dysgwyr unigol.

**Gwirio cywirdeb ffeithiol**

Byddwn yn rhoi drafft o'r adroddiad i'r darparwr, er mwyn helpu gwirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Fel arfer, bydd gan y darparwr bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw wallau.

Mae'r gwiriad yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw'n canolbwyntio ar y canfyddiadau. Ceir arweiniad pellach i ddarparwyr ar natur a chwmpas y gwiriad hwn ar ein gwefan.

## Rhan 3: Trefniadau dilynol

Bydd un categori gweithgarwch dilynol ar gyfer arolygiadau ôl-16, sef: 'yn achosi pryder'. Mae'r arweiniad isod yn amlinellu sut byddwn yn gweithio gyda darparwr lle nad yw agwedd neu agweddau ar addysg a hyfforddiant yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn yr addysg.

### Ymweliad cyswllt y cynllun gweithredu ôl-arolygiad

Tua thri mis ar ôl yr arolygiad, byddwn yn trefnu bod yr arolygydd cyswllt ôl-16 yn ymweld â'r darparwr, yn cyfarfod ag uwch arweinwyr a llywodraethwyr (lle bo'n berthnasol) ac unrhyw randdeiliaid allweddol eraill, lle bo'n berthnasol, fel Llywodraeth Cymru. Pan fo modd, byddwn hefyd yn cynnwys arolygydd cofnodol yr arolygiad. Diben hyn fyddai gwirio bod y darparwr wedi deall yn llawn y rhesymau dros argymhellion yr arolygiad, a gwirio bod y darparwr yn datblygu cynlluniau priodol i fynd i'r afael â diffygion. Byddwn yn anfon hysbysiad ffurfiol dair wythnos cyn yr ymweliad, ond ein nod fydd sicrhau bod y dyddiad yn addas cyn i ni gyflwyno'r hysbysiad hwn.

Ar ôl yr ymweliad, bydd Estyn yn anfon llythyr at bennaeth / Prif Swyddog Gweithredol y darparwr. Bydd y llythyr hwn yn cadarnhau graddau'r sicrwydd a gafodd arolygwyr yn ystod yr ymweliad fod y darparwr yn deall y rhesymau pam mae agwedd neu agweddau'n achosi pryder, a bod cynlluniau addas yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â diffygion. Bydd y llythyr hefyd yn cadarnhau sut mae'r darparwr yn bwriadu mynd i'r afael â'r pryder.

## Ymweliadau / gweithgarwch monitro

Ar ôl ymweliad cyswllt y cynllun gweithredu ôl-arolygiad, byddwn yn datblygu amserlen o ymweliadau neu weithgarwch monitro gyda'r darparwr. Bydd safbwyntiau'r darparwr yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r amserlen.

Bydd y gweithgareddau monitro hyn yn cael eu defnyddio i wirio pa mor dda y mae'r darparwr yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhelliad / argymhellion o'r arolygiad, a beth yw effaith ei weithredoedd. Bydd gweithgarwch monitro wedi'i deilwra i'r darparwr a gallai gynnwys gweithgaredd wrth y ddesg, cyfarfod ar-lein neu ymweliad â'r darparwr.

Byddwn yn cynnal y gweithgaredd monitro cyntaf tua naw mis ar ôl ymweliad cyswllt y cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Bydd ymweliadau neu weithgarwch pellach, os oes eu hangen, yn cael eu trefnu chwe mis ar ôl yr ymweliad / gweithgarwch blaenorol. Byddwn yn hysbysu'r darparwr yn ffurfiol dair wythnos cyn ymweliad monitro, ond ein nod fydd sicrhau bod y dyddiad yn addas cyn cyflwyno'r hysbysiad hwn.

Byddwn fel arfer yn cynnwys arolygydd cofnodol yr arolygiad yn yr ymweliad / gweithgaredd monitro cyntaf, o leiaf. Bydd maint y tîm a chynllun y gweithgaredd neu'r ymweliad yn cael eu teilwra i gyd-destun penodol y darparwr a natur yr argymhellion. Bydd ymweliadau monitro yn nodweddiadol yn cael eu gwasgaru dros ddeuddydd, yn dechrau ac yn gorffen amser cinio ar y diwrnod cyntaf a'r diwrnod olaf, ond yn y pen draw, byddwn yn gweithio gyda'r darparwr i gytuno ar amserlen addas o weithgareddau. Bydd gweithgarwch monitro arall, fel cyfarfodydd ar-lein neu adolygiadau wrth y ddesg, yn cael eu cynnal dros gyfnod byrrach, sef deuddydd, yn nodweddiadol.

Bydd YAR yn cael ei chreu ar gyfer pob gweithgarwch monitro, a fydd yn galluogi'r darparwr i rannu ychydig o ddogfennau allweddol a gwybodaeth ategol sy'n berthnasol.

Yn ystod y gweithgarwch monitro, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r darparwr wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion a faint o gynnydd a wnaed yn gyffredinol. Os nad yw'r darparwr yn achosi pryder mwyach, yna bydd arolygwyr yn argymell y dylid tynnu'r darparwr o'r categori gweithgarwch dilynol.

Ar ôl pob ymweliad neu weithgaredd monitro, byddwn yn anfon adroddiad byrrach at y darparwr o fewn pedair wythnos, gyda chopi i Dîm Ansawdd Ôl-16 Llywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn cadarnhau graddau'r sicrwydd a gafodd arolygwyr yn ystod yr ymweliad fod gweithredoedd y darparwr ers yr arolygiad yn cael yr effaith ddymunol ar y meysydd i'w gwella. Yn yr adroddiad, gallai arolygwyr gynnwys argymhellion i'r darparwr gefnogi mwy o welliant yn ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r

pryder. Os yw’r darparwr wedi gwneud cynnydd digonol, bydd yn cael ei dynnu o’r categori gweithgarwch dilynol.

Os nad yw arolygwyr yn fodlon â’r cynnydd, byddwn yn trefnu amser ar gyfer ymweliad neu weithgarwch monitro pellach ymhen chwe mis. Os na fydd digon o gynnydd wedi’i wneud ar ôl dwy flynedd yn y categori gweithgarwch dilynol, byddwn yn anfon adroddiad at Lywodraeth Cymru yn esbonio’r rhesymau pam mae agwedd neu agweddau ar addysg a hyfforddiant y darparwr nad ydynt yn ddigonol o hyd i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy’n derbyn yr addysg.

**Tynnu o gategori gweithgarwch dilynol**

Ar ôl unrhyw ymweliad monitro, gallai arolygwyr argymell i PAEF nad yw’r darparwr yn achosi pryder mwyach ac y gellir ei dynnu o gategori gweithgarwch dilynol. I fod yn y sefyllfa hon, byddai angen i arolygwyr fod yn sicr bod digon o gynnydd wedi’i wneud wrth fynd i’r afael â phob argymhelliad o’r arolygiad.

Os yw PAEF yn cytuno, yna bydd yr adroddiad ar gyfer yr ymweliad monitro yn cynnwys gwerthusiad o gynnydd ar gyfer pob argymhelliad, a barn gyffredinol fod cynnydd digonol wedi’i wneud er mwyn gallu tynnu’r darparwr o gategori gweithgarwch dilynol am nad yw’n achosi pryder mwyach.

Bydd llythyr byr sy’n esbonio nad yw’r darparwr yn achosi pryder mwyach yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.